

COVID-19 Update: 11th June

Here is tonight's COVID-19 update from Cardiff Council, covering: the first ever remote meeting of Cardiff Council's Cabinet; children leaving primary school prepare for secondary school with virtual transition visits; specialist youth club provision aimed at deaf and hard of hearing young people; and a plea from Ken in our Street Cleansing Team, "we're all in this together, please keep our parks clean".

Cardiff Council Cabinet meeting held online

The first ever remote meeting of Cardiff Council's Cabinet took place today, when the June meeting was held over video conference.

During today's meeting, the Leader of the Council, Cabinet Members, and Leaders of the opposition groups discussed the following reports:

- Restart, Recover, Renew: Next Steps for Cardiff During the Covid19 Crisis
- Cardiff Council's Response to the Covid-19 Crisis from a Financial Management Perspective
- Response to the Impact of Covid19 on Cardiff Council's Housing Delivery Programme
- City Recovery Strategy

The meeting was also webcast, and a recording of that, along with links to the Cabinet reports, can be viewed here:

<https://cardiff.moderngov.co.uk/ieListDocuments.aspx?CIId=151&MIId=4176&Ver=4>

The following press releases were also published in the run up to today's meeting:

Cardiff's plans to exit lockdown as one of UK's 'safest' cities revealed

Click here to view:

<https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24027.html>

Cardiff Council's £29m COVID-lockdown bill explained

Click here to view:

<https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24030.html>

To see the listings of all forthcoming meetings, including Scrutiny meetings, Cabinet meetings and meetings of Full Council, visit www.cardiff.gov.uk/meetings

Virtual Transition Project for schools is underway

A Virtual Transition Project which helps children who are leaving primary school prepare for starting secondary school in September, is underway in Cardiff.

Developed by The Cardiff Commitment, in partnership with the Council's E-Learning Team, the scheme provides Year 6 pupils with the opportunity to learn about their new secondary school, which they will be transitioning to after the summer break.

It enables them to access a secure web page and Google classroom which hosts a variety of activities established by the secondary school to encourage pupils and staff to communicate and get to know one another better.

It also allows new pupils to find out more about the school, including information about staff, maps of the school, uniform, expectations as well as allowing them to post any questions they may have.

Cabinet Member for Education, Employment and Skills, Cllr Sarah Merry said: “The transition period from primary school to secondary school is really important for children and gives them the chance to familiarise themselves with their new school as well as building relationships, gaining confidence and feeling safe.

“With schools currently closed, children are missing out on the usual transition sessions and may be worried or anxious about their new school. This scheme helps to relieve those feelings, giving pupils an opportunity to develop skills which lead to improved outcomes in secondary school.”

The Virtual Transition Project was piloted in Eastern High School, Fitzalan High School and Cathays High School. A further five schools have now engaged with the project including: Cantonian High School, St Illtyd’s High School, Corpus Christi R.C High School, Mary Immaculate High School and Cardiff West Community High School.

Area Leader Transition for Health and Wellbeing at Cathays High School; Cari Merriott said, “It is fantastic that Cathays High School and our feeder Primaries are part of this Project, to ensure a smooth transition for Year 6 in these difficult times.

“It enables us to carry on with our partnership working which we have done through Year 6. We want our new starters to feel happy and excited to join high school and this project certainly supports them.”

Cardiff Deaf Cool Youth Club

Cardiff Youth Service Inclusion has a specialist youth club provision aimed at deaf and hard of hearing young people called, Cardiff Deaf Cool Youth Club. It’s a place where deaf young people can go and not worry about communication as they share the same barriers and frustrations as each other.

Any communication barriers can be overcome with the help of a BSL/English Interpreter which is always available either to voice over or to communicate via British Sign Language. The provision is managed by Shakilah Malik and Stuart Parkinson is the Youth Worker running the club. Stuart is also deaf himself and communicates via British Sign Language and spoken English, with a bilingual approach.

The Coronavirus pandemic has been particularly difficult for deaf and hard of hearing young people. As a result of the restrictions they’ve lost their 'safety net to meet and relax' until things get back to normal.

The club have been communicating via Zoom to sign to each other and be able to share their feelings by drawing pictures, sharing pictures of the food they've been cooking and discussing what they are doing to help each other get through the day.

One fantastic resource has been signposting qualified Deaf Counsellor Trudi Collier, who has been posting deaf user friendly 'Mindfulness' sessions via Facebook which Stuart has been sharing on the Cardiff Deaf Centre Facebook page (link below).

All of this underpins the health and wellbeing strategy. They have also signposted deaf4deaf specialist counselling services if it is needed.

If you would like to get in touch or involved please contact:

<https://www.deafhub.wales/>

[Twitter](#) and @DeafHubWales

[Facebook](#) and @cardiffdeafcentre

“We’re all in this together, please keep our parks clean” – a plea from Ken, Street Cleansing Team



Last week, Ken, one of our colleagues from the cleansing team, [went viral](#) asking people to take their litter home.

We caught up with him to find out why it bugs him so much...

Ken says, “Most people are fine (*with their rubbish*), but there has been a huge increase in litter since the beginning of lockdown. There are obviously so many people off work so it’s not a normal day for anyone anymore.

“With more people heading to the parks for daily exercise or social distanced meet-ups, we are cleaning litter from the parks every day, whereas before we could do them once a week.

“We’re finding BBQs, still alight, burning out the bins, which is so dangerous and it’s costly to replace the bins.

“BBQs in public spaces aren’t advised by the Government, but our advice pre-lockdown was that they should be left on the concrete, near to bins for collection. They shouldn’t be left on the grass or placed inside bins as this is a fire hazard.

“There are lots of bottles, cans and picnics that are littered around the parks. We carefully check there’s no broken glass, no broken play or gym equipment as some people are still using these. Please follow government guidelines and don’t use this equipment at all.”

“There are so many dirty nappies being dumped. We have a hygiene service that residents can sign up for. You then get your nappies collected weekly. One week in yellow bags, and another week in general waste. Please, take them home.”

Ken continues, “A big thank you to Cardiff Rivers Group and Keep Wales Tidy, without them we couldn’t cope. Most of my team mates are working alone due to social distancing rules and we couldn’t cope without the help of these volunteers.

“I love my job, I love to look back at the clean park and think “Wow, I did that, it’s clean”. I’m proud to help keep Cardiff tidy. I’m just asking for people to be considerate and help us. The more people can do to help us, the better.

“We’re all in this together.”

Thank you so much to Ken, all the cleansing team and our volunteers working so hard to keep our public spaces litter free.

Please remember to take your litter home with you or dispose of it correctly. You could face a fine of £100 for littering. Find out more [here](#).

Diweddariad COVID-19: 11 Mehefin

Dyma ddiweddariad COVID-19 Cyngor Caerdydd, sy'n cynnwys: cynnal cyfarfod Cabinet Cyngor Caerdydd ar-lein; Project Pontio Rhithwir ar gyfer ysgolion ar waith; Clwb Ieuenctid Cŵl Pobl Fyddar Caerdydd; a apêl gan Ken o'r Tîm Glanhau Strydoedd, “Rydyn ni ynnddi gyda'n gilydd, cadwch ein parciau yn lân”.

Cynnal cyfarfod Cabinet Cyngor Caerdydd ar-lein

Cynhaliwyd y cyfarfod o bell cyntaf erioed o Gabinet Cyngor Caerdydd heddiw, ar ffurf cynhadledd fideo.

Yn ystod y cyfarfod heddiw, bu arweinydd y Cyngor, Aelodau'r Cabinet ac arweinwyr grwpiau'r gwrthbleidiau yn trafod yr adroddiadau canlynol:

- Ailgychwyn, Adfer, Adnewyddu: Y Camau Nesaf i Gaerdydd yn ystod Argyfwng Covid19
- Ymateb Cyngor Caerdydd i Argyfwng COVID-19 o Bersectif Rheolaeth Ariannol
- Ymateb i Effaith Covid-19 ar Raglen Cyflenwi Tai Cyngor Caerdydd
- Strategaeth Adfer y Ddinas

Cafodd y cyfarfod ei weddarlledu hefyd, a gellir gweld recordiad ohono, ynghyd â dolenni i adroddiadau'r Cabinet, yma:

<https://cardiff.moderngov.co.uk/ieListDocuments.aspx?CId=151&MId=4176&Ver=4&LLL=1>

Cyn y cyfarfod, cyhoeddwyd y datganiadau canlynol i'r wasg:

Datgelu cynlluniau Caerdydd i ddod allan o'r cyfnod cloi fel un o ddinasoedd 'mwyaf diogel' y DG

Cliciwch yma i'w weld:

<https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24027.html>

Eglurhad o fil £29m Cyfnod Cloi COVID-19 i Gyngor Caerdydd

Cliciwch yma i weld:

<https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24030.html>

Project Pontio Rhithwir ar gyfer ysgolion ar waith

Mae Project Pontio Rhithwir sy'n helpu plant sy'n gadael yr ysgol gynradd i baratoi ar gyfer dechrau yn yr ysgol uwchradd ym mis Medi, ar waith yng Nghaerdydd.

Mae'r cynllun, a ddatblygwyd gan Addewid Caerdydd mewn partneriaeth â Thîm E-ddysgu'r Cyngor, yn rhoi'r cyfle i ddisgyblion Blwyddyn 6 ddysgu am eu hysgol uwchradd newydd, y byddan nhw'n symud iddi ar ôl gwyliau'r haf.

Mae'r project yn eu galluogi i ddefnyddio tudalen we ddiogel a Google Classroom ac yn cyflwyno amrywiaeth o weithgareddau a luniwyd gan yr ysgol uwchradd i annog disgyblion a staff i gyfathrebu a dod i adnabod ei gilydd yn well. Mae'r project hefyd yn galluogi disgyblion newydd i ddysgu mwy am yr ysgol gan gynnwys gwybodaeth am y staff, mapiau o'r ysgol, gwisg yr ysgol, disgwyliadau, yn ogystal â'u galluogi i bostio unrhyw gwestiwn a allai fod ganddynt.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau, y Cyngorydd Sarah Merry: "Mae'r cyfnod pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn bwysig dros ben i blant ac yn rhoi'r cyfle iddyn nhw ddod i adnabod eu hysgol newydd yn ogystal â meithrin perthnasoedd, magu hyder a theimlo'n ddiogel.

"Gyda'r ysgolion ar gau ar hyn o bryd, nid yw'r sesiynau pontio arferol wedi bod ar gael i blant ac mae'n bosib y byddan nhw'n poeni neu'n gorbryderu am eu hysgol newydd. Mae'r cynllun hwn yn helpu i liniaru'r teimladau hynny, gan roi'r cyfle i ddisgyblion feithrin sgiliau sy'n arwain at ganlyniadau gwell yn yr ysgol uwchradd."

Cafodd y Project Pontio Rhithwir ei beilota yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain, Ysgol Uwchradd Fitzalan ac Ysgol Uwchradd Cathays. Mae pum ysgol arall bellach yn cymryd rhan yn y project gan gynnwys Ysgol Uwchradd Cantonian, Ysgol Uwchradd Illtyd Sant, Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Cristi, Ysgol Uwchradd Mair Ddihalog ac Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd.

Dywedodd yr Arweinydd Pontio er Budd Iechyd a Lles yn Ysgol Uwchradd Cathays, Cari Merriott, "Mae'n wych bod Ysgol Uwchradd Cathays yn rhan o'r project hwn, er mwyn sicrhau bod disgyblion Blwyddyn 6 yn gallu pontio'n rhwydd yn ystod y cyfnod anodd sydd ohoni.

"Mae'n ein galluogi i barhau i weithio mewn partneriaeth fel y gwnaethom drwy gydol Blwyddyn 6. Rydym yn awyddus i'n disgyblion newydd deimlo'n hapus a llawn cyffro o fod yn ymuno ag ysgol uwchradd ac mae'r project hwn yn bendant yn eu cynorthwyo i wneud hynny."

Clwb Ieuenctid Cŵl Pobl Fyddar Caerdydd

Mae gan adran Cynhwysiant Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd ddarpariaeth clwb ieuenctid arbenigol ar gyfer pobl fyddar a thrwm eu clyw o'r enw, Clwb Ieuenctid Cŵl Pobl Fyddar Caerdydd. Mae'n fan lle gall pobl ifanc fyddar fynd i beidio â phoeni am gyfathrebu gan eu bod yn rhannu'r un rhwystrau a rhwystredigaethau â'i gilydd.

Gellir goresgyn unrhyw rwystrau cyfathrebu gyda chymorth cyfieithydd BSL/Saesneg sydd bob amser ar gael naill ai i leisio neu i gyfathrebu drwy gyfrwng Iaith Arwyddion Prydain. Mae'r ddarpariaeth yn cael ei rheoli gan Shakilah Malik a Stuart Parkinson yw'r Gweithiwr Ieuenctid sy'n rhedeg y clwb. Mae Stuart hefyd yn fyddar ei hun ac yn cyfathrebu drwy gyfrwng Iaith Arwyddion Prydain a Saesneg llafar, mewn dull dwyieithog.

Mae pandemig y Coronafeirws wedi bod yn arbennig o anodd i bobl ifanc fyddar a thrwm eu clyw. O ganlyniad i'r cyfyngiadau, maent wedi colli eu 'rhwyd ddiogelwch i gwrdd ac ymlacio' nes aiff pethau yn ôl i'r arfer.

Mae'r clwb wedi bod yn cyfathrebu trwy Zoom i gyfathrebu â'i gilydd trwy arwyddion, a gallant rannu eu teimladau trwy dynnu lluniau, rhannu lluniau o'r bwyd maen nhw wedi bod yn ei goginio a thrafod beth maen nhw'n ei wneud i helpu ei gilydd i dreulio'r dydd.

Un adnodd gwych fu cyfeirio at y cwnselydd cymwys ar gyfer pobl fyddar Trudi Collier, sydd wedi bod yn postio sesiynau 'Ymwybyddiaeth Ofalgar' addas i bobl fyddar ar Facebook, y mae Stuart wedi bod yn eu rhannu ar dudalen Facebook Canolfan Pobl Fyddar Caerdydd (dolen isod).

Mae hyn oll yn sail i'r strategaeth iechyd a lles. Maent hefyd wedi cyfeirio at deaf4deaf, gwasanaethau cwnsela arbenigol os oes eu hangen.

Cysylltwch â ni os hoffech chi gymryd rhan.

<https://www.deafhub.wales/>
[Twitter](#) a [@DeafHubWales](#)
[Facebook](#) a [@cardiffdeafcentre](#)

“Rydyn ni ynnddi gyda’n gilydd, cadwch ein parciau yn lân” - apêl gan Ken o’r Tîm Glanhau Strydoedd



Yr wythnos diwethaf, cafodd Ken, un o’n cydweithwyr yn y tîm glanhau, [sylw mawr](#) ar y we yn gofyn i bobl fynd â’u sbwriel adref.

Cawsom sgwrs ag e i weld pam mae’n ei wylltio gymaint.

Meddai Ken, “Mae’r rhan fwyaf o bobl yn iawn (*gyda’u sbwriel*) ond mae cynnydd enfawr yn y sbwriel ers cychwyn y cyfnod cloi. Yn amlwg, mae llawer iawn o bobl i ffwrdd o’r gwaith felly dydy’r dyddiau ddim yn normal i unrhyw un bellach.

“Gyda mwy a mwy o bobl yn mynd i’r parciau i wneud eu hymarfer dyddiol neu i gwrdd â’i gilydd dan y canllawiau ymbellhau cymdeithasol, rydyn ni’n glanhau sbwriel o’r parciau bob dydd, a ninnau’n gallu gwneud hynny unwaith yr wythnos o’r blaen.

“Rydyn ni’n dod o hyd i farbeciws sydd dal ynghyn, yn llosgi yn y biniau, sydd mor beryg ac mae hi’n ddrud newid y biniau.

“Dydy’r Llywodraeth ddim yn argymhell cael barbeciws mewn mannau cyhoeddus, ond ein cyngor cyn y cyfnod cloi oedd y dylid eu gadael nhw ar y concrit, wrth ymyl y biniau, i’w casglu. Ddylen nhw ddim cael eu gadael ar y glaswellt nac yn y biniau achos mae hyn yn berygl tân.

"Mae llawer o boteli, caniau a sbwriel picnic sy'n frith o amgylch y parciau. Rydyn ni'n edrych yn ofalus nad oes gwydr wedi torri, dim offer chwarae neu ymarfer corff

wedi torri achos mae rhai pobl yn dal i ddefnyddio'r rhain. Dilynwch ganllawiau'r Llywodraeth a pheidiwch â defnyddio'r offer yma o gwbl.

“Mae cymaint o gewynnau budr yn cael eu gadael. Mae gennym wasanaeth hylendid y gall trigolion gofrestru ar ei gyfer. Yna caiff eich cewynnau eu casglu'n bob wythnos. Un wythnos mewn bagiau melyn, ac wythnos arall gyda'r gwastraff cyffredinol. Plîs, ewch â nhw adref gyda chi.”

Â Ken yn ei flaen, "Diolch yn fawr i Grŵp Afonydd Caerdydd a Cadwch Gymru'n Daclus, hebddyn nhw fydden ni ddim yn gallu ymdopi. Mae'r rhan fwyaf o'm cydweithwyr yn gweithio ar eu pennau eu hunain oherwydd rheolau ymbellhau cymdeithasol ac allen ni ddim ymdopi heb gymorth y gwirfoddolwyr hyn.

“Rwy wrth fy modd gyda fy ngwaith, fe fyddai'n hoffi edrych yn ôl ar y parc glân a meddwl 'Waw, fi wnaeth hynna; mae'n lân.' Rwy'n falch o helpu i gadw Caerdydd yn daclus. Dydw i ddim ond yn gofyn i bobl fod yn ystyriol a'n helpu ni. Gorau po fwyaf y gall pobl ei wneud i'n helpu ni.

“Rydyn ni ynnddi gyda'n gilydd.”

Diolch yn fawr i Ken, yr holl dîm glanhau a'n gwirfoddolwyr sy'n gweithio mor galed i gadw ein mannau cyhoeddus heb sbwriel.

Cofiwch fynd â'ch sbwriel adref neu gael gwared arno'n gywir. Gallech gael dirwy £100 am adael sbwriel. Dysgwch fwy yma.

